

Cefndir

Prosiect peilot oedd Dyma Ni gyda'r nod o gefnogi pobl anabl rhwng 17-30 oed. Deilliodd y prosiect o fwlch canfyddedig yn y gefnogaeth i bobl ifanc ag anabledau yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd, wrth i bobl ifanc ag anabledau gyrraedd 18 oed, mae gostyngiad yn y cymorth sydd ar gael sy'n hwyluso integreiddio cymdeithasol.

Cyfranogwr 6

Fel rhan o'r adroddiad a gynhyrchwyd gan Wavehill, crëwyd 3 astudiaeth achos unigol. Mae pob un wedi'i ddewis i gynrychioli rhai agweddau allweddol o'r prosiect, yn ogystal ag ar gyfer enghraifft o effeithiau a chanlyniadau sydd wedi deillio o fod yn rhan o Dyma Ni.

Nododd y gweithiwr cymorth ar gyfer Cyfranogwr 6 eu bod wrth eu bodd yn mynychu Dyma Ni, gyda staff y prosiect yn ei wneud yn hwyl ac yn rhyngweithiol iddynt hwy a phawb sy'n cymryd rhan. At hynny, fe wnaethant amlygu sut mae'r prosiect wedi helpu i ddatblygu sgiliau sgwrsio a chymdeithasol y cyfranogwr yn fawr. Maent yn teimlo bod bod yn rhan o grŵp wedi eu helpu i gael amgylchedd diogel ac anffurfiol i ddatblygu:

"Dwi'n meddwl mai'r peth mwya ydy'r berthynas gyda'r bobl sy'n gweithio yno. Maen nhw mor rhyngweithiol drwy'r amser. A'r bobl eraill yn ei grŵp, dyma'r unig le mae'n eu hadnabod o ac mewn sesiwn byr wrth wneud stwff, mae'n rhyngweithio gyda'r rhan fwyaf ohonynt. Mae'n hoffi'r bobl sy'n ei wneud. Os yw'n siarad am y peth, nhw yw'r peth cyntaf mae'n siarad amdano. Maen nhw mor gyfeillgar iddo. Mae bob amser wedi bod angen annog i wneud y pethau maen nhw gwneud, ond mae'r ffaith eu bod wedi llwyddo i'w gael i wneud yr holl bethau hyn i fynd yn ôl at ei fam-gu yn wych. Mae bob amser yn hwyl iddo. Mae wedi bod yn glwb gwych iddo. Mae ei holl bethau datblygiadol wedi bod ar lefaru, sgwrsio a hyder."

Mae Dyma Ni wedi caniatáu i Gyfranogwr 6 ddatblygu hyder yn y sgiliau newydd a ddatblygwyd drwy'r prosiect a nododd ei weithiwr cymorth fod yr ymddiriedaeth a roddwyd i'r cyfranogwr i gael rhoi cynnig ar bethau newydd a'r annibyniaeth iddynt ddatblygu wedi bod yn effaith aruthrol:



"Mae ei sgiliau sgwrsio a chymdeithasol wedi dod ymlaen yn dda iawn. Mae'r holl weithgareddau maen nhw'n eu gwneud yn agor y drws i'r datblygiad ... mae wedi bod yn hapus iawn i fod yn rhan o'r grŵp."

Eglurodd y gweithiwr cymorth ar gyfer Cyfranogwr 6 sut mae perthnasau'r cyfranogwr i gyd yn falch o'u cyflawniadau drwy'r grŵp ac yn ehangach o ganlyniad:

"Mae ei nain wedi bod mor falch ohono. Mae'r effaith ar ei deulu cyfan wedi bod yn wych, i weld pa mor bell y mae wedi dod ymlaen ... fe wnaethom gyflwyno'r portffolio i'w nain oedrannus iawn. Mae'n mynd mor gyffrous am y peth ac yn siarad mewn ffordd chi methu â deall yn iawn beth mae'n ei ddweud, sy'n hyfryd i'w weld oherwydd mae fel arfer yn dweud pan ofynnwyd iddo beth mae wedi'i wneud, "Dim llawer"."

Eglurwyd eu bod yn datblygu eu hannibyniaeth ymhellach trwy weithio gyda'r cyfranogwr ar ddal bws i Aberaeron ar gyfer Dyma Ni.

Yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, dywedodd y gweithiwr cymorth fod y cyfranogwr wedi methu'r grŵp a sut yr oedd yn rhwystro gosod targedau a gwaith portffolio o fewn Dyma Ni. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt, heb Dyma Ni yn gyfan gwbl, y byddai'r cyfranogwr yn debygol o brofi 'cwmp' yn eu dilyniant, ac nad oes llawer ar gael—yn debyg i Dyma Ni—sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc.

Daethant i ben drwy nodi bod Dyma Ni yn amgylchedd mor gadarnhaol a hapus, sy'n cynnwys ei holl aelodau ac yn creu ymdeimlad o berthyn a chysur i bawb sy'n mynychu:

"Roedd yn ei chael hi mor hawdd i ymuno a pheidio â chael ei wrthod gan lwyth cyfan o bobl. Mae'n gallu cael ei frifo'n eithaf hawdd os ydych chi'n dweud rhywbeth dirdynnol neu'n codi llais. Mae yna lawer o chwerthin a jôcs yno. P'un a ydyn nhw'n ei gael ai peidio, wn i ddim, ond mae'n awyrgylch wirioneddol hapus yno. Hyd yn oed os yw rhywun i lawr, mae'n mynd i ffwrdd yn ddigon cyflym. Mae'n glwb da iawn drwy'r amser. Mae'n rhaid i mi ddweud hefyd bod cymaint o barch yno i'w bregusrwydd - does dim teimlad amheus o gwbl."



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

